**Cwestiynau Cyffredin ar gyfer Cleifion sy'n trosglwyddo i Feddygfa Penrhyn / Peninsula Practice**

Mae'r Cwestiynau Cyffredin wedi'i ddyfeisio i gefnogi cleifion sy'n cael eu trosglwyddo i Feddygfa Solfach, a fydd yn cael ei adnabod fel Meddygfa Penrhyn / Peninsula Practice o 1 Tachwedd 2024.

## Sut mae gwneud apwyntiad?

Gallwch wneud apwyntiad dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Mae'r practis ar agor rhwng 8am a 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc).

Rhif ffôn Meddygfa Penrhyn yw (01437) 721306. Os nad yw eich galwad yn un brys, ffoniwch ar ôl 10 y bore.

Mae apwyntiadau gyda Meddyg Teulu ar gael yn ddyddiol a gellir eu harchebu ymlaen llaw, gydag apwyntiadau brys ar gael ar y diwrnod. Mae'n bosibl y bydd staff y Dderbynfa yn gofyn i chi am rai manylion sylfaenol am eich problem i'w logio ar gyfer y Meddyg Teulu, maent wedi cael eu hyfforddi i wneud hyn ar gais y Meddygon Teulu.

## Sut mae archebu presgripsiwn?

I archebu eich presgripsiwn rheolaidd, dewch a'ch slip (ar ochr dde'r presgripsiwn lle mae eich meddyginiaeth wedi'i restru) i Feddygfa Penrhyn neu Well Pharmacy ar Cross Square. Archebwch 10 diwrnod cyn i'ch meddyginiaeth ddod i ben er mwyn caniatáu amser i'r presgripsiwn gael ei adolygu a'i brosesu yn y feddygfa, ac yna ei brosesu yn y Fferyllfa rydych chi'n ei defnyddio.

Fel arall gallwch archebu eich meddyginiaeth reolaidd trwy Ap y GIG, gweler isod.

Sylwch nad yw Well Pharmacy bellach yn darparu eu gwasanaeth archebu rheolaidd.

Os na allwch ddefnyddio'r naill na'r llall o'r dulliau hyn, efallai oherwydd eich bod yn gaeth i'r tŷ, cysylltwch â'r Feddygfa.

## Sut gallaf gysylltu â'r practis yn electronig?

Mae Meddygfa Penrhyn yn gweithredu'r un dull ar-lein o gysylltu â'r feddygfa ar gyfer materion nad ydynt yn rhai brys ag y gwnaeth Meddygfa Tyddewi, a elwir yn E-consult. Gallwch gysylltu â'r Feddygfa am gyngor ar-lein drwy'r feddygfa yn https://solvasurgery.gpsurgery.net/

Mae gwefan newydd yn cael ei datblygu ar gyfer Meddygfa Penrhyn.

## Beth yw Ap y GIG?

Mae Meddygfa Penrhyn yn cynnig Ap y GIG sy'n galluogi cleifion i ddefnyddio gwasanaethau practis ar-lein megis archebu presgripsiynau rheolaidd. Ymhen amser, bydd hyn yn cael ei ymestyn i gynnwys trefnu apwyntiadau ar-lein.

Bydd cleifion sy'n trosglwyddo i Feddygfa Penrhyn yn gallu defnyddio Ap y GIG o ganol mis Tachwedd a bydd taflenni ar gael yn y Feddygfa a Well Pharmacy ar Cross Square gyda manylion sut i gofrestru. Mae Ap y GIG hefyd ar gael trwy borwr gwe, felly nid oes angen i chi gael ffôn clyfar i'w ddefnyddio.

## Beth sy'n digwydd i staff Meddygfa Tyddewi?

O dan gyfraith cyflogaeth mae’r staff cyflogedig ym Meddygfa Tyddewi yn gymwys i drosglwyddo i Feddygfa Penrhyn ar 1 Tachwedd ac mae’r tîm yno’n edrych ymlaen at groesawu eu cydweithwyr newydd. Bu cyfres o gyfarfodydd gyda'r staff sy'n trosglwyddo i geisio gwneud y trosglwyddiad hwn mor hawdd â phosibl dan yr amgylchiadau. Mae’r Bwrdd Iechyd yn ddiolchgar am gefnogaeth y gymuned i staff rheng flaen Meddygfa Tyddewi ac yn gobeithio y bydd y gefnogaeth hon yn parhau i’r tîm ehangach ym Meddygfa Penrhyn.

### Pwy yw'r meddygon teulu ym Meddygfa Penrhyn?

Mae dau Feddyg Teulu cyflogedig ar hyn o bryd, sef Dr Pathy sy'n Feddyg Teulu Arweiniol Clinigol, a Dr Unversucht. Bydd Dr Hopwood o Feddygfa Tyddewi yn ymuno â nhw. Cefnogir y meddygon hyn gan feddygon teulu locwm, y mae llawer ohonynt yn gweithio sesiynau rheolaidd yn Solfach.

### Sut mae gofyn am ymweliad cartref?

Ymgymerir ag ymweliadau cartref gan feddygon teulu yn seiliedig ar asesiad clinigol o angen. Os credwch fod angen ymweliad cartref arnoch, cysylltwch â'r Feddygfa cyn 10am ar y diwrnod.

### Beth am drafnidiaeth i Feddygfa Penrhyn?

Roedd taflen oddi wrth PACTO wedi'i hamgáu gyda'r llythyrau diweddar i gleifion, yn cynnwys gwybodaeth am fysiau, bws Fflecsi a Cheir Cefn Gwlad. Lle bynnag y bo modd, gwneir pob ymdrech i drefnu apwyntiadau o amgylch amseroedd bysiau fel y bo'n briodol. Rhowch wybod i'r Derbynnydd os ydych yn teithio ar y bws pan fyddwch yn trefnu apwyntiad.

### Beth am y feddygfa gangen yn Nhyddewi?

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Shalom House i sefydlu cangen fach mewn rhan hunangynhwysol o'u hadeilad ar Heol Non. Bydd clinigau dan arweiniad nyrsys yn gweithredu bob bore, gan gynnig profion gwaed, gwiriadau pwysedd gwaed, mesuriadau taldra a phwysau, pigiadau B12, gofal clwyfau a chlinigau rheoli clefydau cronig ar gyfer Asthma, Diabetes, Gorbwysedd a COPD. Ymhen amser y gobaith yw y bydd gwasanaethau Clwstwr a Chymuned amlddisgyblaethol hefyd ar gael o gangen Shalom.

Os byddai'n well gennych i'ch apwyntiad nyrs fod yn Shalom nag yn Solfach, dywedwch wrthym pan fyddwch yn gwneud yr apwyntiad. Rhoddir blaenoriaeth i'r cleifion hynny sy'n cael anhawster teithio i Solfach, megis y rhai sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Sylwch nad oes lle i barcio yn Shalom.

### Sut mae’r Bwrdd Iechyd yn mynd i sicrhau bod digon o le ym Meddygfa Penrhyn ar gyfer yr holl gleifion ychwanegol?

Mae newidiadau mewnol i adeilad y Feddygfa yn Solfach yn cael eu gwneud trwy fis Hydref a Thachwedd i drawsnewid rhai ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol a gwneud y defnydd gorau posibl o'r gofod sydd ar gael ar gyfer yr holl gleifion a staff. Bydd hyn yn cynnwys creu ystafelloedd newydd ar gyfer ymgynghoriadau clinigol a newid gofod y Dderbynfa. Mae’r Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro ymlaen llaw am unrhyw anghyfleustra i gleifion tra bod y gwaith adeiladu hanfodol hwn yn mynd rhagddo.

## Beth am barcio?

Mae gan Feddygfa Penrhyn 16 o leoedd parcio i gleifion. Yn ogystal, mae mannau parcio anabl wedi eu lleoli ar y fflat ger y drws ac mae mynediad da i gadeiriau olwyn.

## Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion yr holl gleifion?

Bydd y Bwrdd Iechyd yn monitro gwasanaethau Meddygfa Penrhyn yn agos ac yn barhaus i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad da at wasanaethau o ansawdd uchel. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda Grŵp Rhanddeiliaid a Gweithgor y Penrhyn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Dinas Tyddewi, a chynghorau cymuned Solfach a Llanrhian.